# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD IONAWR 2022

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 18 o Ionawr, 2023** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ac ymestyn croeso arbennig i Bethan Thomas a Mair Edwards sydd yn bresennol heno i rannu cyflwyniad ar Ganolfan Lleu - Prosiect Iechyd A Lles Dyffryn Nantlle

Yn bresennol heno roedd:
Michelle Williams **(MW);** Huw Rowlands **(HR)**; Jason Hunt **(JH);** Gwilym Thomas **(GVT)**; Gwilym Williams **(GLW)**; Nerys Evans **(NE);** Tom Ellis **(TE)**; ac Gillian Thomas **(y Clerc).**

2. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:**
Arwyn Herald Roberts **(AHR);** Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Elin Evans **(EE)**

3. **DATGAN BUDDIANT**

Dim i'w ddatgan ar y noson

4. **CADARNHAU COFNODION TACHWEDD 2023 A MATERION YN CODI**

Cynigwyd Cofnodion Tachwedd yn gywir gan HR gydag JH yn eilio a phawb yn cytuno

**a) LLIFOGYDD GER PONT YR AFON, TŶ'N LLWYN RHOSGADFAN**
Cytunodd Peiriannydd Ardal Arfon I ddilyn y mater i fyny gyda'r tir berchennog i weld beth all gael ei wneud i nadu'r dŵr rhag llifo i'r ffordd.
Er hynny, o gysidro'r tywydd gwlyb rydym wedi ei gael yn ddiweddar, a lleoliad y ffordd wedi ei ochri a thir comin agored , roedd yn disgwyl i ddŵr tir ddod i'r ffordd fel mae'r lefelau dŵr sydd wedi storio ynddo gyrraedd cynhwysedd (capacity). Roedd yn argymell i ddefnyddwyr y ffordd gymryd hynny mewn ystyriaeth wrth ddefnyddio'r ffordd a gyrru i'r amodau boed hynny'n dywydd oer neu wlyb.

**b) TYRCHOD DEAR MYNWENT CEFNFAES**
Pedwar twrch wedi ei ddal yn dilyn tri ymweliad, tystiolaeth wedi ei dderbyn, anfoneb i'w gymeradwyo isod.

**c) GRIDIAU GWARTHEG**
Derbyniwyd gohebiaeth gan AHR yn adrodd bod y gwaith o ail gostio wedi cychwyn, bydd yn parhau i ddilyn y mater.

**d) TWMPATHAU CYFLYMDER**
Dim diweddariadau hyd yn hyn gan AHR ond yn parhau i gadw'r mater yn gyfredol.

**e) STAD GWÊL Y FOEL DINAS**
Derbyniwyd ymateb gan **Dewi Griffiths** Swyddog Twf, Dŵr Cymru i gais am wybodaeth bellach gan GVT i rwystrau phosphate ac adeiladau newydd.

Esboniodd bod Gwaith Trin Dŵr Llanfaglan yn gwasanaethu nifer o bentrefi o'r Bontnewydd ym mhen gogleddol y dalgylch i lawr i'r Groeslon a Carmel ym mhen deheuol y dalgylch.

Mae capsasiti yn GTD Llanfaglan i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd ac mae gan y GTD drwydded ffosffad o 1mg/litr. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynghori, gan nad ydyn nhw (a'u rhagflaenydd, Asiantaeth yr Amgylchedd) wedi adolygu'r drwydded hon ers 2010, nid yw'r drwydded yn ystyried y wybodaeth newydd am y targedau ffosfforws tynnach ar gyfer dyfrwyr SAC a gyhoeddwyd ganddynt ym mis Ionawr 2021. O'r herwydd, hyd yn oed gyda thrwydded ffosffad ar waith yn y GTD, ni ellir diystyru effaith sylweddol bosibl ar SAC Gwyrfai.

Ar hyn o bryd does dim cynllun yn cael ei gynnig yn Llanfaglan i dynhau'r drwydded ffosffad. Yn y lle cyntaf, mae angen i CNC gynnal adolygiad o'i drwydded bresennol er mwyn penderfynu a yw'n briodol neu fod angen ei thynhau - proses y mae angen iddynt ymgymryd â hi ar gyfer pob GTD gyda thrwyddedau ffosffad o fewn ardaloedd SAC ac maent wedi nodi y gallent fod mewn lle i roi gwybod yn ôl ar hyn erbyn y Gwanwyn y flwyddyn nesaf.

**f) LLWYBR WAUN BANT**

Yn dilyn cwyn bod ieir yn cael ei hongian ar ffens ar y llwybr, cytunodd Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd lythyru a'r perchennog yn eu hatgoffa o gyfreithiau Ffliw Adar.

**g) LEIN BRYN GWYN**

Nid oedd diweddariad pellach gan HR I'w gynnig gan y Rheilffordd.

**h) LLIFOGYDD PONT WERNLAS DDU**

Mewn ymateb i gais am esboniad am raglen warchod y Cyngor Sir parthed y llifogydd adroddodd y Swyddog Priffyrdd bod y Cyngor yn glanhau gylïau unwaith y flwyddyn yn unol â'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
Byddant yn clirio rhwystrau gyda gwreiddiau pob 4 I 5 mlynedd.
Gan fod y bibell yn rhedeg drwy goedlan, mae'n anochel bydd gwreiddiau yn canfod ei ffordd mewn iddi o bryd i'w gilydd. Bydd eu swyddogion yn cadw llygad ar y lleoliad, a delio gydag unrhyw broblemau sydd yn codi.

**i) LON LLWYN ONN**

Adroddodd HR bod gwaith i ail agor y culvet ger Bryn Llwyd bellach wedi ei wneud ond yn anffodus wedi symud y broblem ymlaen yn agosach i'r tŷ. Cytunwyd I fod yn wyliadwrus o'r sefyllfa.
Adroddodd ymhellach nid oedd gwaith i gwblhau marciau ffordd ger Tan y Gelynnen wedi ei gwblhau hyd yn hyn.
Nid oedd gwaith i glirio cerrig man yn llifo gyda dŵr i lawr o Fryn Rhodyn chwaith wedi ei gwblhau yn foddhaol.
Y clerc a HR I wneud ymholiadau pellach,

**j) ATGYWEIRIO HYSBYSFWRDD**

Adroddodd MW bod Hysbysfwrdd y Fynwent wedi ei atgyweirio ond heb ei sefydlu hyd yn hyn.
Bydd gwaith yn cychwyn ar hysbysfwrdd Rhosisaf unwaith bydd hysbysfwrdd Cefnfaes wedi ei sefydlu.

k) **CCSQ CYFARFOD GRŴP CYSWLLT MOEL TRYFAN**

Adroddodd GVT bod cwynion am loriau ddim yn cadw i gytundebau cludiant wedi eu trafod ac esboniadau am broblemau SAT NAV a chwmnïau diarth wedi eu cynnig.
Adroddodd ymhellach bod cynlluniau parthed creu llwyfan wylio yn parhau i gael ei ystyried.
Nid oedd dyddiad wedi ei gynnig i'r cyfarfod nesaf ac nid oedd rhodd ariannol at les y gymuned wedi ei dderbyn.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO / CEISIADAU HEB GAEL SYLW'R CYNGOR**

**a) Rhif Cais/App Ref: C22/1177/24/DT - Tafarn Hen, Dinas, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YN**
**Rhif Cais/App Ref: C22/0552/24/CR - Tafarn Hen, Dinas, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YN**
Dim gwrthwynebiad

| | |
|---|---|
| | **b) Rhif Cais/App Ref: C22/1126/24/DT - 13 Tai Bron Eryri, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7HS**<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>**c) Rhif Cais/App Ref: C22/1109/24/TC - Caravan-dwelling, Glan Yr Afon , Llanwnda, LL54 5TG**<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>d) **Rhif Cais/App Ref: C22/1130/24/LL - Golygfa, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7PB**<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>**CEISIADAU HEB DDERBYN SYLW oherwydd nad oedd cyfarfod yn yr amser penodedig**<br><br>a. Rhif Cais/App Ref: C22/1131/24/DT - Tan Y Rhiw, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7RA<br>b. Rhif Cais/App Ref: C22/1084/24/LL - Tyn Rhos, Saron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5UH<br>c. Rhif Cais/App Ref: C22/1087/24/LL - Plas Bodaden, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YG |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) CYFLWYNIAD GAN BETHAN THOMAS - CANOLFAN LLEU - PROSIECT IECHYD A LLES DYFFRYN NANTLLE**<br><br>Croesawyd Bethan a Mair o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod i roi diweddariad ar y Ganolfan Iechyd a Lles ym Mhenygroes.<br>Adroddwyd gan Bethan –<br>• Wedi penodi Rheolwr Prosiect gyda'r dasg o greu tîm dylunio llawn.<br>• Yn cyfarfod yn wythnosol i gadw golwg ar y rhaglen a'r costau.<br>• Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu gyda 5 grŵp o randaliad Cwmni "Aspri Planning" wedi eu penodol i wneud y cynlluniau ac wrthi yn datblygu strategaeth ar gyfer y "pre planning application".<br>• Cynllun busnes cymhleth gyda model ariannol cymhleth iddo.<br>• Yn disgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror ar y Outline Business Case. Hwn yn benderfyniad mawr ac allweddol i symud y cynllun ymlaen.<br>• Cost y gwaith yn £51miliwn. Hwn wedi cynnwys "contingency" a chwyddiant<br>• Amserlen – cychwyn ar y safle 2024/25. Wedi ei gwblhau yn 2027/28<br>• Byddent yn ymgynghori gyda'r gymuned yn ystod mis Chwefror a Mawrth. Yn tynnu mewn Neuaddau Pentrefi'r ardal i'r trafodaethau, i adnabod ydi'n bosib defnyddio'r neuaddau yn y cynllun.<br><br>Sylwadau aelodau:<br><br>GVT– faint o grantiau sydd wedi ei gynnwys yn y £51miliwn – Bethan - ariannir y gwaith 100% o grantiau cyfalaf (yn cynnwys yr Integrated Care Fund, Social Housing Grant, Grantiau Llywodraeth (CAP), Cyngor Gwynedd<br><br>GVT – A fydd 'Renewable energy' yn cael ei sefydlu – Pryderon am wastraff o arian yn dilyn problemau a gwastraff o arian wrth godi Ysgol yr Hendre. Bethan – Cynlluniau manwl ddim wedi eu cytuno hyd yn hyn.<br><br>GVT – Faint o Ddoctoriaid fydd ar y safle – Bethan – Bydd 6 ystafell I Ddoctoriaid – Cyflogaeth yn nwylo BCW Gweledigaeth yw cael Doctoriaid o'r cynefin<br><br>**b) STRWYTHUR Y CYNGOR**<br>Derbyniwyd llythyr gan Elin Evans yn esbonio oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymiadau teuluol roedd rhaid ymddiswyddo o'i sedd ar y Cyngor. Roedd wedi elwa'n fawr o'r profiad ac wedi dysgu llawer am yr ardal a'i phobl, ac wedi mwynhau cwmnïaeth aelodau'r Cyngor dros y blynyddoedd.<br>Y clerc i yrru dymuniadau gorau'r aelodau ymlaen a diolch am ei chyfraniad gwerthfawr.<br>Bydd hyn yn gadael tair sedd wag ar y Cyngor ar gyfer Dinas, Rhosgadfan a Rhostryfan, Y clerc i ail hysbysebu.<br><br>**c) PRECEPT Y CYNGOR**<br>Wedi cysidro ymrwymiadau'r Cyngor Cymuned, a rhagamcanion 2023 - 24 cynigiodd GVT godi'r Precept I gyd fynd a chwyddiant y Cyngor Sir I £30,000.00 cytunodd pawb. |

| | |
|---|---|
| | **d) MYNWENT CEFNFAES**<br>Adroddodd GW bod tap y fynwent wedi dioddef difrod pellach yn dilyn cyfnod rhew ychwanegol er gwaethaf cael ei atgyweirio yn ddiweddar. Y clerc i ofyn argymhellion y plymwr.<br>Gofynnodd GVT am ddiweddariad parthed cais i archebu tir ychwanegol i redeg ar ochor chwith y fynwent tuag at y cefn. Adroddodd y clerc ei bod wedi gwneud cais i swyddog o Carter Jonas drafod a chodi'r mater gyda pherchnogion y tir ond yn parhau i ddisgwyl unrhyw ohebiaeth.<br>Derbyniwyd cais gan NE I drefnu cyfarfod gyda Phwyllgor y Fynwent I drafod rheolau a chostau, cytunwyd ar y 1af o Chwefror yn y Capel, Rhostryfan.<br><br>**e) HYFFORDDIANT**<br>Rhannodd y clerc rhestr Hyfforddiant Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru am y mis<br>Oherwydd ymrwymiadau eraill ni dderbyniwyd unrhyw gais gan yr aelodau i fynychu.<br><br>**f) NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DERFYNAU CYFLYMDER CYNLLUN 20MYA - 20MPH PROJECT (ARCGIS.COM)**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelodau i'r clerc weithredu<br><br>**g) GOLYGFA AR Y TIR COMIN**<br>Derbyniwyd gair gan asiant y Goron yn adrodd eu bod yn agored i argymhellion y Cyngor Cymuned i arbed gwersylla dros nos ar y comin.<br>Y clerc i yrru dau ddyfynbris i'r tri argymell ymlaen iddynt gysidro.<br><br>h) **PCAC/PEDW: ROW/3282401 - LLWYBR TROED RHIF 161 YNG NGHYMUNED LLANWNDA, GWYNEDD**<br>Adroddodd y clerc bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle am 10:30 ar 26 Ionawr 2023 a gofynnodd am wirfoddolwr o'r Cyngor I'w gwrdd. Cytunodd NE.<br>Gadawodd NE'r cyfarfod |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | **HUW ROWLANDS –**<br><br>Adroddodd HR bod trafodaethau yn parhau gyda Chyngor Gwynedd parthed mesurau rheoli traffic yn Saron I warchod y plant wrth groesi i'r Cae chwarae. |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |

**a) CYSONIAD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.22** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£9,321.80** |
| **29.03.22** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,343.51** |
| **01.04.22** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£2,133.00** |
| **2022/2023** | **GWARGED** | **+** | **£6,439.77** |
| | | **=** | **£76,972.08** |

**b) DATGANIADAU BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Hydref i 28 Rhagfyr 2022**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £20,540.18 |
| Derbyniadau | + | £4,471.00 |
| Gwariant | - | £9,912.80 |
| Balans Cau | = | **£15,098.38** |

**CYFRIF CADW - 1af o Dachwedd i 26 o Ragfyr 2022**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £63,367.12 |
| Derbyniadau | + | £66.75 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£63,433.87** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

- **Anfoneb Wyn Williams 2022-9.**
  Roedd yr aelodau wedi gofyn am esboniad manwl parthed yr anfoneb.
  Cynigiodd WW esboniad fel -
  Torri coed a'i 'shredio' o Fryngwyn I Stesion Rhostryfan, gwaith ychwanegol ar y llwybr cyhoeddus ar gyfarwyddyd y Cyngor yn dilyn cyfarfod gyda'r is-bwyllgor llwybrau ym mis Awst eleni.
  (mae'r pris yma yn cynnwys llafur, peiriant shreddio, Strimmer, hedge cutter, chainsaw, Orec, disel ac olew)
  O.N. Mae gweddill y gwaith torri coed o Stesion Rhostryfan I Dyddyn Gwyndaf angen ei gwblhau (mae'n amcangyfrif tua 18 i 20 awr eto), ni fydd yn gorffen y gwaith ar Lein Bryngwyn nes bo'r Cyngor Cymuned wedi cymeradwyo anfoneb 2022-9.

  Cymeradwywyd yr anfoneb. Gan nad oedd y gwaith uchod yn rhan o'r contract, y clerc i dderbyn amcan bris arall i gwblhau.

- Cytunodd y Cyngor ryddhau **£80.12** o bot y treuliau i archebu printar newydd i'r clerc.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **18.01.23** | G. Thomas | **101680** | £656.50 |
| **18.01.23** | Un Llais Cymru | **101681** | £70.00 |
| | | | |
| **18.01.23** | P. Griffith | **101682** | £85.00 |
| **18.01.23** | Wyn Williams | **101683** | £648.00 |
| **18.01.23** | G. Jones | **101684** | £100.67 |
| | | = | **£1,560.17** |

9. **GOHEBIAETH**

**a) DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS (EMRTS CYMRU)**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

**b) EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD 2023**
Adroddodd y clerc bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gan Meinir Williams yn Ysgol Rhostryfan, nos Fercher, Chwefror 8fed am 7.30 i drefnu gweithgaredd codi arian at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023.
Cytunodd NE ddiweddaru'r clerc o ddulliau cyswllt Meinir Williams

**c) BLYTHE GARAGE**
Cais ychwanegol am gefnogaeth i archebu deffiblwr. I'w drafod fis nesaf

d) **CRICCIETH CREADIGOL**
Cais am bleidlais ar gyfer Creative Lives Awards - cytunodd yr aelodau - y clerc i yrru blaen

| | |
|---|---|
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |

**a)** **GW - GOLWG AR Y STRYD DDWY OCHOR O RHOSISAF I ROSTRYFAN**
Wedi ei hadrodd i'r tîm tacluso

Nid oedd GW yn credu bod cynnwys y gwaith yn foddhaol gan fod y swyddogion wedi symud y budreddi at y wal yn lle ei glirio. Mae'r dŵr yn parhau i redeg. Y clerc i ail adrodd.

**b)** **GW -BRIGAU COED PENLAN ISAF, RHOSISIAF**
Wedi ei hadrodd i'r tîm tacluso

C) **GVT – LLIFOGYDD YN RHEDEG O GAE TŶ HEN AR Y GYFFORDD YN RHOSGADFAN** –
Y clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd

**e)** **MW BINAU GRAENU BRO CADFAN**
Adroddodd MW bod bin Bro Cadfan yn parhau i fod ar goll.
Yn ychwanegol gofynnodd am restr brioriti a map yn esbonio'r ffyrdd fydd yn cael eu graenu a rhaglen amser rhwng pob ymweliad. Y clerc i ofyn i'r Swyddog Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

**f)** **CAMFA HEN GASTELL LLANWNDA**

Yn parhau i fod mewn cyflwr gwael. Y clerc i ail adrodd i Gyngor Gwynedd

**g)** **GW – GYLIS ANGEN EU GLANHAU**

Penceunant i sgwâr Bryn Melyn ac Pengroeslon i Fryn Melyn Rhosisaf

**h)** **JH – TYLLAU YN Y FFORDD**

- Ffrwd Cae Du ar y troiad ochor chwith am Rostryfan bron cyn y tamaid anti skid.
- Ger Bryn Peris Rhos Isaf
- Ar y troiad wrth y bont fach o Ffrwd Cau Du wrth Gae Helygen

| | |
|---|---|
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Capel Rhostryfan am 7 y h - 22ain o Chwefror, 2023 |